# Plethu myngau a thwtio ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys plethu myngau a thwtio ceffylau. Gellir gwneud hyn ar gyfer ystod o geffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. defnyddio technegau atal sydd yn lleihau straen ac anaf wrth blethu myngau a thwtio ceffylau
4. paratoi a phlethu mwng y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. twtio mwng neu gynffon y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. cael eglurhad pan nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
7. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm effeithiol
8. cynnal a glanhau a thacluso'r ardal waith
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. dewis ardal waith ac offer addas
3. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. technegau addas i atal ceffyl wrth blethu myngau a thwtio
5. pryd y dylid plethu a phryd na ddylid plethu
6. sut i blethu mwng ceffylau
7. pryd mae angen twtio a sut i dwtio
8. sut i dynnu mwng a phryd y mae hyn yn briodol
9. pam y mae'n bwysig cael ardal waith lân a thaclus
10. peryglon i geffylau, chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Cwmpas/Ystod

Plethu myngau a thwtio ceffylau fel y bo'n briodol:

- gosod mwng
- plethu mwng
- tynnu mwng (dewisol – yn unol â gofynion yr iard)
- twtio cynffon
- tynnu cynffon (dewisol – yn unol â gofynion yr iard)
- twtio llwybr neu fwlch ffrwyn (dewisol – yn unol â gofynion yr iard)
- twtio plu
- twtio clustiau
- twtio gên

Plethu myngau a thwtio ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq206 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; mwng; plethu |